# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (218)

## Dyddiad: Dydd Mawrth 5 Hydref 2010
## Amser: 13.30

### Eitem 1: Cynnig i gymeradwyo newidiadau dros dro i Reol Sefydlog 27 ynghylch amserlen y gyllideb flynyddol

**NDM4542 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 35.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Medi 2010; ac

2. Yn cymeradwyo'r newidiadau i Reolau Sefydlog a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

………………………

### 13.31
### Eitem 2: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 15. Tynnwyd cwestiynau 4, 5, 9 a 14 yn ôl.

………………………

### 14.34
### Eitem 3: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.45
### Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cydwasanaethau

………………………

### 15.14
### Eitem 5: Dadl ar Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc

**NDM4543 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod heriau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn sgil y dirwasgiad ac yn cefnogi dull Llywodraeth y Cynulliad o weithredu wrth gynnig cymorth i bobl ifanc i'w helpu i ganfod neu symud tuag at swyddi cynaliadwy; ac

2. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i ddod â Chronfa Swyddi'r Dyfodol i ben.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu popeth ar ôl "diweithdra ymhlith pobl ifanc" a

Rhoi yn ei le:

2. Yn galw am ddull gweithredu sy'n fwy integredig ac sy'n cael ei yrru ymlaen gan ganlyniadau er mwyn lleihau nifer y NEETS yng Nghymru.

3. Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddisodli Cronfa Swyddi'r Dyfodol â rhaglen sy'n fwy uchelgeisiol ac unedig ar gyfer pawb sy'n ddi-waith."

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 28 | 40 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 28 | 40 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod nifer fawr o fudiadau sy'n gweithio ym maes ymgysylltu â phobl ifanc a chyflogaeth pobl ifanc ac o'r herwydd bod y system yn gymhleth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 29 | 40 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu er mwyn sicrhau bod cyllid yn y maes hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth sy'n canfod y bylchau mewn darpariaeth, yn cydlynu comisiynu gwasanaethau ac yn osgoi dyblygu rhwng asiantaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 30 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleilais ar y cynnig:**

**NDM4543 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod heriau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn sgil y dirwasgiad ac yn cefnogi dull Llywodraeth y Cynulliad o weithredu wrth gynnig cymorth i bobl ifanc i'w helpu i ganfod neu symud tuag at swyddi cynaliadwy; a

2. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth y DU i ddod â Chronfa Swyddi'r Dyfodol i ben.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 11 | 41 |

## Derbyniwyd y cynnig.

………………………

## 16.06
## Eitem 6: Dadl ar Arloesedd ac Ymchwil a Datblygu

### NDM4544 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i annog ymchwil a datblygu o safon fyd-eang, i adeiladu ar yr arbenigedd o fewn prifysgolion a busnesau Cymru, ac i ysgogi arloesedd yng Nghymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y genhedlaeth o arloesi newydd yn gofyn am ymchwil academaidd sylfaenol sy'n canolbwyntio ar fantais economaidd tymor hir posibl yn hytrach na gwerth masnachol tymor byr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 31 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i harneisio pŵer dylunio i arloesi mewn diwydiant, gwasanaethau a chymdeithas.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi llwyddiant amrywiol y prosiectau Technium ac yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ei fod yn adolygu effeithiolrwydd y prosiectau hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai unrhyw ddull gweithredu a ddefnyddir yn y dyfodol gynnwys swyddogaeth amlycach i Sefydliadau Addysg Uwch.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 31 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4544 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i annog ymchwil a datblygu o safon fyd-eang, i adeiladu ar yr arbenigedd o fewn prifysgolion a busnesau Cymru, ac i ysgogi arloesedd yng Nghymru.

Yn cydnabod yr angen i harneisio pŵer dylunio i arloesi mewn diwydiant, gwasanaethau a chymdeithas.

Yn nodi llwyddiant amrywiol y prosiectau Technium ac yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ei fod yn adolygu effeithiolrwydd y prosiectau hyn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 7 | 0 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**16.54**
**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.58**

……………………..

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 6 Hydref 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**